

Diolchgarwch

Darlleniad: Salm 103

Diolchwn i ti, ein Tad, am awyrgylch fendithiol yr oedfa hon sy'n peri inni fwynhau cwmni'n gilydd yn dy dŷ, ac yn peri inni ymostwng gyda'n gilydd i'th gydnabod a'th addoli. Sylweddolwn na allwn dy addoli'n iawn ohonom ein hunain. Yn wir, ein Tad, oni chawn gyfarwyddyd dy Air sanctaidd a chymorth yr Ysbryd Glân, cyffeswn na wnawn ond addoli duwiau dieithr, cynnyrch ein dychymyg a'n hofnau ffôl, eithr trugarha wrthym ni trwy ein cynorthwyo i ymateb i gymhellion yr Ysbryd a chyfarwyddyd dy Air. Dywed dy Air wrthym mai 'Ysbryd yw Duw, a rhaid i'w addolwyr ei addoli mewn ysbryd a gwirionedd'.

Yn dy drugaredd, bendithia ni felly ag ysbryd cywir i'th addoli, ac i sylweddoli nad oes arall fel tydi, yr unig wir a'r bywiol Dduw. Yn wir, i ti, ein Tad, y perthyn pob mawl ac anrhydedd, pob doethineb a mawredd, a phob gallu a gogoniant, ac i ni y perthyn y fraint o ddyrchafu dy enw sanctaidd, a'th addoli. Am hynny:

'Deuwch ac addolwn ac ymgrymwn, plygwn ein gliniau gerbron yr Arglwydd a'n gwnaeth, oherwydd ef yw ein Duw, a ninnau'n bobl iddo a defaid ei borfa.'

Diolchwn am dystiolaeth dy Air i'th ofal mawr ohonom ac am rybudd y salmydd i beidio anghofio dy ddaioni tuag atom:

'Fy enaid, bendithia'r Arglwydd, a phaid ag anghofio'i holl ddoniau.'

Cofiwn yn ddiolchgar, ein Tad, y modd y creai ni ar dy lun a'th ddelw dy hun, ac anadlu ynom fywyd. Diolchwn am y rhodd werthfawr hon, ac am iti ein cynnal a'n cadw hyd y foment hon. Yn dy drugaredd, cadw ni rhag derbyn rhodd bywyd yn ddi-feddwl ac yn ddiddiolch. O! Dad, ti yw rhoddwr a chynhaliwr ein bywyd,

a thrwy fendithion dy greadigaeth, darperaist fwyd a diod i'n cynnal, a gwres ac awyr iach i'n cadw'n fyw. Diolchwn i ti am fendithion eraill bywyd, megis cariad anwyliaid a charedigrwydd cyfeillion, iechyd i fwynhau bywyd a nerth i gyflawni ein gwaith, ac amser hamdden i ymlacio ac i atgyfnerthu. O! Arglwydd, boed inni sylweddoli mor dda yw hi arnom mewn gwirionedd ac mor llwyr ddibynnol ydym arnat ti.

Ond yn fwy na dim, dymunwn roi diolch i ti heddiw am dy gariad anfeidrol a ddatguddiaist i ni ym mherson dy Fab, Iesu Grist. Diolchwn i ti am iddo ddod i'n byd, ac i'n bywyd. Diolchwn fod Iesu Grist yn frawd i gydymdeimlo â'n gwendid, ac yn geidwad i'n hachub o'n cyflwr pechadurus.

Diolchwn am ei fywyd pur a dilychwin, ei neges yn llawn gwirionedd, ei dosturi tuag at y cleifion, ei allu rhyfeddol i iacháu ac i fwrw allan ysbrydion aflan, a'r modd yr aeth oddi amgylch gan wneuthur daioni. Ond uwchlaw pob peth, ein Tad, fe gofiwn yn ddiolchgar am aberth ei gariad ar y Groes, a buddugoliaeth ei gariad fel y'i datguddiwyd mor ogoneddus ar fore'r trydydd dydd.

O! Arglwydd Dduw, mor fawr yw dy gariad diymollwng tuag atom yn Iesu Grist, ac mor fawr yw ein dyled i ti. Derbyn, felly, ein diolch a'n clod. Gwna ni'n ymwybodol hefyd o'n dyled i'n gilydd, ac o'n braint a'n cyfrifoldeb i rannu bendithion dy gariad, ac i'w hestyn i bwy bynnag a'u myn.

Yn dy drugaredd, maddau i ni ein dyledion a phopeth ynom sy'n peri loes a thristwch i ti. Derbyn felly ein diolch a'n clod, ac arhosed dy fendith arnom ac ynom, er mwyn ein Gwardwr, Iesu Grist. Amen.

John Lewis Jones